

## **Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru**

### **Adroddiad ar Seilwaith Digidol**

#### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

#### **Cyflwyniad**

Hoffem ddiolch i'r Comisiynwyr am eu gwaith wrth baratoi eu hadroddiad ar seilwaith digidol yng Nghymru.

Mae'n bwysig cydnabod nad yw telathrebu yn fater sydd wedi'i ddatganoli i Gymru ac mai Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am y maes. Rydym wedi ymyrryd yn y gorffennol, yn fwyaf arbennig drwy'n prosiect Cyflymu Cymru, gan gamu i faes sydd heb ei ddatganoli er mwyn gwella cysylltedd digidol ac er mwyn sicrhau bod gwasanaethau digidol yn cael eu darparu.

Mae angen sylweddoli bod cyflwyno seilwaith digidol yng Nghymru yn gryn her. Mae'r topograffeg a dwysedd y boblogaeth, yn enwedig yn ein hardaloedd gwledig, yn cael effaith sylfaenol o ran pa mor hyfyw yn ariannol fyddai darparu seilwaith digidol ar sail fasnachol.

Isod, ceir ymateb Llywodraeth Cymru i bob un o'r argymhellion a wnaed gan y Comisiynwyr.

#### **Argymhelliad 'a'**

Dylai Llywodraeth Cymru barhau i ymgysylltu'n frwd â Llywodraeth y DU a Building Digital UK wrth ddatblygu'r rhaglen gyllido newydd Gigabit, a ddylai fod yn fwy hyblyg na'r rhaglen gyflym iawn flaenorol. Yn benodol, dylai Llywodraeth Cymru geisio:

- I. Sicrhau bod y trefniadau tendro yn gallu ymdopi â'r diffyg darpariaeth gystadleuol o ran seilwaith FTTH yng Nghymru heddiw, ac mae'n debygol y bydd Openreach yn chwarae mwy o ran yn y rhaglen. Mae hyn yn cynnwys tendro lotiau llawer iawn mwy na 3000 o aelwydydd.
- II. Sicrhau bod modd defnyddio cyllid ar gyfer technolegau sydd ar hyn o bryd yn darparu 100 Mb yr eiliad, fel gwasanaethau band eang cartref 4G a 5G, ac nid mewn 'achosion cyfyngedig' yn unig fel y mae Llywodraeth y DU yn ei ragweld ar hyn o bryd.
- III. Sicrhau bod modd ailddyrannu cronfeydd sy'n cael eu 'cymryd yn ôl' o dan gontract FTTH yn hyblyg i unrhyw gynllun, yn hytrach na gorfod cael eu dyrannu i raglenni newydd sy'n cael eu gwneud gan yr un gweithredwr. Yn y cyd-destun hwn, dylai 'unrhyw gynllun' gynnwys FTTH a gyflwynir gan weithredwr arall, band eang 4G/5G a gyflwynir gan weithredwyr symudol, neu gynlluniau talebau o unrhyw fath.

- IV. Caniatáu darparu cyllid ar yr amod bod argaeledd cysylltiadau FTTH i fusnesau yn cael blaenoriaeth yn ôl anghenion aelwydydd.

### Ymateb

- i. Derbyn: Mae swyddogion Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithio'n agos gyda'u cymheiriaid yn Building Digital UK (BDUK) ar raglen gigabit Llywodraeth y DU. Mae ffrydiau gwaith wedi cael eu sefydlu ac mae'r trafodaethau, hyd yma, wedi canolbwyntio ar ddata, ar gaffael ac ar sut i fynd ati i weithredu. Mae'r trafodaethau'n parhau.
- ii. Gwrthod: Rydym bob amser yn ffafrio gweithredu mewn ffordd sy'n niwtral o ran technoleg ac sy'n seiliedig ar yr amgylchiadau o dan sylw. Mae rhaglen Llywodraeth y DU yn canolbwyntio ar gysylltedd gigabit yn hytrach nag ar gysylltedd gwibgyswllt. Yn ystod prosesau caffael a gynhaliwyd yn y gorffennol i fynd i'r afael â'r angen i gyflwyno band eang ar raddfa fawr i gartrefi a busnesau – gan gynnwys y broses gaffael a gynhaliwyd ddwy flynedd yn ôl ar gyfer y cynllun sydd gennym ar hyn o bryd i gyflwyno cysylltiadau ffeibr – ni ddangosodd y diwydiant symudol unrhyw ddiddordeb mewn darparu'r math hwn o gysylltedd ar raddfa fawr.

Bydd y prosiect ar y cyd rhwng y diwydiant symudol a Llywodraeth y DU i greu Rhwydwaith Gwledig a Rennir yn golygu y bydd gwasanaethau pob un o'r pedwar gweithredwr symudol ar gael ar draws 80 y cant o dir Cymru, gan greu rhagor o gyfleoedd i ddarparu band eang i gartrefi a busnesau. Fodd bynnag, er mwyn darparu band eang gan ddefnyddio 4G a 5G ar y cyflymderau a awgrymwyd gan y comisiynwyr, byddai angen mwy o seilwaith, mwy o gysylltedd ôl-drosglwyddo data drwy gyfrwng ffeibr, newidiadau i'r lledau band a ddefnyddir ar y sbectrwm mewn sawl rhan o Gymru, a byddai angen dod â'r seilwaith yn nes o lawer at gartrefi a busnesau.

Mae'n cynlluniau grant bob amser yn cael eu cynllunio a'u rhoi ar waith ar sail niwtral o ran technoleg ac maent wedi helpu i sicrhau bod 4G yn cael ei osod mewn nifer o gartrefi.

- iii. Derbyn: Fel y nodwyd uchod, rydym yn niwtral o ran technoleg wrth fynd ati i ddarparu band eang a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru, ac o ran prosesau caffael a gynhaliwyd yn y gorffennol, nid yw gweithredwyr rhwydweithiau symudol wedi dangos unrhyw ddiddordeb mewn cyflwyno ceisiadau. Mae sut y mae arian a adfechir yn cael ei wario yn dibynnu ar delerau'r cytundeb grant gyda BT ac mae'n elfen safonol o'r holl dempledi a ddarperir gan BDUK ar gyfer cytundebau grant. Mae cytundeb Llywodraeth Cymru yn un ohonynt. Fodd bynnag, byddwn yn edrych ar y trefniadau presennol ac yn ceisio sicrhau'r hyblygrwydd mwyaf posibl o ran sut y bydd cyllid a adfechir o gynlluniau cyfredol a chynlluniau yn y dyfodol yn cael ei wario.
- iv. Derbyn: Roedd pwysoliad o blaid safleoedd busnes yn y meini prawf ar gyfer asesu ceisiadau o dan y cynllun cyfredol gydag Openreach i ddarparu

seilwaith ffeibr. Byddwn yn ailedrych ar hynny ar gyfer prosesau caffael yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod busnesau'n parhau i elwa ond hefyd er mwyn sicrhau bod patrymau gwaith newydd sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y pandemig, megis gweithio gartref a gweithio o bell, yn cael eu cefnogi os bydd hynny'n bosibl.

## **Argymhelliad 'b'**

Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru dybio nad yw Cymru'n debygol o gael mynediad at yr £1.3 biliwn o gyllid a fyddai yn ofynnol, yn ein barn ni, i ddarparu ffeibr i bob aelwyd a busnes yng Nghymru ac ni ddylai ychwaith efelychu ymrwymiad Llywodraeth y DU i FTTH yn ddogmatig. Yn hytrach, dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu ei strategaeth ei hun i fanteisio i'r eithaf ar y buddion economaidd a buddion eraill o fuddsoddiadau cost is mewn seilwaith symudol 4G a 5G.

## **Ymateb**

Gwrthod

Fel y nodwyd eisoes, rydym yn mynd ati mewn ffordd sy'n niwtral o ran technoleg i ddarparu band eang a ariennir yn gyhoeddus, gan ystyried nifer o ffactorau, yn eu plith, gwerth am arian a'r angen i ailfuddsoddi yn y dyfodol. Nid yw telathrebu yn fater sydd wedi'i ddatganoli ac mae'n un o gyfrifoldebau Llywodraeth y DU. Bydd Rhaglen Gigabit y DU a phrosiect y DU i greu Rhwydwaith Gwledig a Rennir, lle mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn cydweithio â'r diwydiant seilwaith symudol, yn darparu cysylltedd a fydd yn cefnogi FTTP(cysylltiad ffeibr i adeiladau) a 4G, ac yn y pen draw, 5G. Nid yw'n glir sut y gallai buddsoddiad ar raddfa fawr gan Lywodraeth Cymru mewn technoleg symudol ddarparu'r gwasanaethau 4G a 5G a ragwelir yn yr adroddiad yn gynt na'r Rhwydwaith Gwledig a Rennir (SRN). Os bydd cysylltedd 'milltir olaf' gan ddefnyddio technolegau symudol yn gwneud synnwyr, byddwn yn buddsoddi ynddyn nhw. Rydym eisoes yn gweld mwy o alw am gysylltedd 4G drwy'n cynllun ABeC (Allwedd Band Eang Cymru) ac rydym yn disgwyl i'r galw hwnnw gynyddu wrth i'r SRN gael ei gyflwyno.

## **Argymhelliad 'c'**

Dylai Llywodraeth Cymru geisio annog gweithredwyr FTTH newydd yng Nghymru i gymryd rhan a buddsoddi, fel y gwelwn yn awr mewn manau eraill yn y DU. Un cam wrth wneud hyn, yw i Lywodraeth Cymru roi arweiniad a chyfarwyddyd newydd i bob awdurdodau lleol ar sicrhau bod pibellau ac asedau cyhoeddus eraill ar gael i weithredwyr am ffioedd sy'n annog eu defnyddio ac yn unol â nodau'r Cod Cyfathrebu Electronig newydd.

## **Ymateb**

Derbyn

Mae gwaith eisoes ar y gweill gyda chyrrff cyhoeddus yng Nghymru i sicrhau bod asedau cyhoeddus ar gael i weithredwyr telathrebu. Mae'r gwaith hwnnw'n cael ei wneud drwy un o is-grwpiau Ystadau Cymru, sef grŵp ystadau cyhoeddus Cymru.

## **Argymhelliad 'd'**

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad cyflym o'i chynlluniau talebau band eang presennol. Ar ôl gwneud hynny, efallai y daw i'r casgliad bod cynllun Allwedd Band Eang Cymru wedi dyddio ac y dylid ei gau. Dylid symleiddio a gwella'r ffordd y caiff trefniadau talebau Cymru eu cyhoeddi er mwyn cynyddu'r niferoedd sy'n manteisio arnynt yn sylweddol (y dylid gosod targedau ar eu cyfer). Ar yr un pryd, dylai'r Llywodraeth warchod yn erbyn 'chwyddiant gormodol ar dalebau' sydd fel arall yn debygol o gael ei yrru gan gostau uchel iawn cyflwyno FTTH mewn rhai rhannau o Gymru. Ni ddylid ystyried dyfarnu talebau ar gyfer miloedd o bunnoedd i bob aelwyd yn ystod y 5 mlynedd nesaf oni bai fod pob dewis amgen ymarferol – gan gynnwys darparu drwy gysylltiadau band eang cartref 5G neu 4G â chymhorthdal – wedi cael eu disbyddu. Dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu a gosod ei gap ei hun o £3400 i bob aelwyd, sy'n debyg i'r hyn sy'n berthnasol o dan y cynllun Band Eang Cyffredinol, o leiaf am y blynyddoedd nesaf.

## **Ymateb**

Derbyn:

Dim ond un cynllun o'r math hwn y mae Llywodraeth Cymru yn ei gynnig, sef cynllun grant Mynediad Band Eang Cymru. Fodd bynnag, mae hefyd yn darparu arian ychwanegol ar gyfer cynllun talebau Cysylltedd Gigabit Gwledig Llywodraeth y DU. Bydd adolygiad yn cael ei gynnal ar sut yr ydym yn ariannu grantiau a thalebau, er mwyn sicrhau bod y cynlluniau sydd gennym ar hyn o bryd neu'r cynlluniau a fydd gennym yn y dyfodol yn bodloni gofynion cartrefi a busnesau ledled Cymru. Mae cynllun ABeC wedi bod yn achubiaeth hanfodol i lawer o gartrefi a busnesau, felly, er bod cynlluniau gan Lywodraeth y DU dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn ddatblygiad i'w groesawu'n fawr, mae'n bwysig bod gennym rwyd ddiogelwch ar gyfer y rheini y mae arnynt angen cymorth yn gyflym.

Mae'r cyfeiriad at chwyddiant yng nghostau cysylltiadau ffeibr i adeiladau (FTTP) yn ddiddorol, ac mae'n fater y byddwn yn rhoi rhagor o ystyriaeth iddo. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y mwyafrif llethol o'r datrysiadau a ariannwyd drwy gynllun ABeC yn rhai 4G symudol. Rydym bob amser yn ceisio sicrhau gwerth am arian: cafodd y cyllid a oedd ar gael ar gyfer pob safle drwy gynllun ABeC ei ostwng o £1,000 i £800.

Er hynny, ni fyddwn yn gosod cap ar bob safle fel yr argymhellwyd gan y Comisiynwyr ond byddwn, yn hytrach yn parhau i wneud penderfyniadau ar sail gwerth am arian a niwtraliaeth dechnolegol. Bydd hynny'n ein galluogi i ddarparu seilwaith digidol a fydd yn cael ei ddiogelu at y dyfodol mewn ffordd a fydd yn gwneud synnwyr, ac a fydd yn ystyried yr heriau a'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r safle dan sylw. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro'r gost fesul safle er mwyn sicrhau gwerth am arian.

## **Argymhelliad 'e'**

Dylai Llywodraeth Cymru ddisodli Grŵp Seilwaith Digidol Cymru gyfan presennol a chreu tasglu 'chwalu rhwystrau' newydd yn ei le, dan arweiniad uwch swyddog,

gydag amcanion ac amserlenni clir ar gyfer eu cyflawni. Dylai'r tasglu arwain y gwaith o ddatblygu a gweithredu canllawiau newydd a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) y canllawiau sy'n ymwneud â defnyddio asedau cyhoeddus a chodi ffioedd amdanynt, gweithredu trefn gynllunio newydd ar gyfer telathrebu (TAN19), ymgysylltu â Network Rail, Trafnidiaeth Cymru, Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, Asiant Cefnffyrdd De Cymru, a chysylltu â'r tasglu cyfatebol yn Llywodraeth y DU.

## **Ymateb**

Derbyn:

Bydd tasglu'n cael ei sefydlu i adeiladu ar drefniadau presennol o dan Grŵp Seilwaith Digidol Cymru, a bydd yr aelodau'n dod o bob rhan o'r sector cyhoeddus a'r diwydiant. Bydd y tasglu'n diffinio'r materion hynny y mae angen mynd i'r afael â nhw a bydd hefyd yn diffinio'r hyn y bydd angen ei wneud er mwyn mynd i'r afael â'r materion hynny.

Rhaid cydnabod, er hynny, na fydd mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n llesteirio cysylltedd yn fodd, ar ei ben ei hun, i ddatgloi buddsoddiad gan y diwydiant, oherwydd na fydd hynny'n mynd i'r afael â'r ffactorau economaidd sylfaenol sy'n arwain at yr heriau sylfaenol sy'n gysylltiedig â darparu seilwaith digidol newydd yng Nghymru. Mae dileu neu leihau unrhyw rwystrau sy'n gysylltiedig â buddsoddiad sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd, neu â buddsoddiad a fwriedir yn y dyfodol, yn ffordd synhwyrol a phendant o weithredu. Fodd bynnag, rhaid gofalu nad yw'r ddeialog hon, na mynd ati ar y cyd i ddatrys problemau, yn tynnu sylw oddi ar yr angen i'r diwydiant a Llywodraeth y DU weithredu ar y cyd i fuddsoddi yng Nghymru.

Bydd y tasglu newydd yn bodoli ochr yn ochr â Grŵp Seilwaith Digidol Cymru, sy'n bodoli ar hyn o bryd. Y Grŵp hwnnw fydd yn parhau i helpu i gydgysylltu'r gwaith o ddarparu cysylltedd band eang a chysylltedd symudol. Bydd hefyd yn ymgymryd â gweithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu, yn rhannu syniadau ac arferion da, yn rhannu data ac yn datblygu ymyriadau newydd. Mae'r grŵp wedi bod yn llwyddiannus ac mae'r rheini sy'n rhan ohono ar hyn o bryd o'r farn ei fod yn gyfrwng gwerthfawr ar gyfer gwyntyllu a datrys problemau.

## **Argymhelliad 'f'**

Ni ddylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi arian mewn astudiaethau achos 5G, gweithgareddau profi cysyniad, profion na threialon, ond yn hytrach dylai geisio sicrhau bod ceisiadau llwyddiannus sy'n cael eu datblygu mewn mannau eraill yn y byd yn gallu cael eu mabwysiadu yng Nghymru.

## **Ymateb**

Gwrthod

Cydnabyddir yn eang fod gan bob Llywodraeth, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, rôl bwysig i'w chwarae o ran cefnogi a meithrin datblygiadau technolegol, diwydiannau a sgiliau newydd. Mae ecosystem academiaidd yn datblygu eisoes yng Nghymru ym maes technolegau telathrebu, yn enwedig yn y ganolfan Prosesu

Signalau Digidol ym Mhrifysgol Bangor. Gall cynnal profion a threialon a gweithgareddau tebyg eraill helpu i ddatblygu sgiliau a meithrin hyder, ac i ysgogi creadigrwydd a fydd yn esgor ar brosiectau cydweithredol newydd. Mae Cymru yn lle cyffrous i gynnal busnes ynddo ac i ymchwilio i syniadau newydd ac, o safbwynt telathrebu, mae'n cynnig cyfle diddorol i brofi a threialu technoleg mewn lleoliadau gwledig a mynyddig mewn ffordd a fydd yn berthnasol ledled y byd. Bydd bod yn rhan o weithgarwch o'r fath nid yn unig yn gwella proffil Cymru ond hefyd yn sicrhau bod technolegau newydd yn addas ar gyfer ein tirwedd, ar gyfer y cyfleoedd penodol sydd gennym yma yng Nghymru, ac ar gyfer yr heriau penodol sy'n ein hwynebu.

Llywodraeth Cymru yw'r partner arweiniol mewn consortiwm o 'Gymunedau Gwledig Cysylltiedig', sy'n un o nifer o brosiectau sydd wedi cael cyllid oddi wrth Lywodraeth y DU i helpu i ledaenu manteision 5G ar draws cymunedau gwledig. Mae'r prosiect yn manteisio ar alluoedd ac arbenigedd y prif sefydliadau academiaidd a'r prif sefydliadau ym maes technoleg, diogelwch, a symudedd sy'n rhan o'r consortiwm, gan gynnwys Cisco, BT, Prifysgol Caerdydd, Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Utterberry ac AppyWay. Mae'r prosiect yn bodoli er mwyn adeiladu'r achos o blaid cysylltedd 5G yn y Gymru wledig – gwella cysylltedd a gwella mynediad at wasanaethau pwysig, a denu buddsoddiad mewn Cymru ddigidol.

Nod y prosiect fydd darparu rhwydwaith a gwasanaethau masnachol i ddangos potensial masnachol ac effaith gymdeithasol mwy o gysylltedd 5G mewn ardaloedd anghysbell. Ei nod yw darparu fframwaith y gellir ei efelychu er mwyn denu mwy o fuddsoddiad oddi wrth weithredwyr rhwydweithiau symudol mewn ardaloedd anghysbell. Mae prosiectau'n cael eu datblygu ym maes trafnidiaeth, ffermio, twristiaeth ac addysg.

### **Argymhelliad 'g'**

Nid ydym yn gwneud unrhyw gynigion penodol ar gyfer cynlluniau newydd i hyrwyddo mabwysiadu gwasanaethau FTTH yn well pan a lle y byddant yn dod ar gael yng Nghymru. Yn hytrach, rydym yn argymhell y dylid gofyn i Archwilio Cymru ganfod ac adolygu effeithiolrwydd y rhaglenni mabwysiadu band eang sydd eisoes yn cael eu cynnal yng Nghymru, a nodi arferion gorau y tu allan i Gymru, a gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru. Dylid rhoi terfyn ar weithgareddau sy'n aneffeithiol ar hyn o bryd a ailddyrrannu adnoddau. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd geisio cysylltu'n agos â Grŵp Cyngori newydd Llywodraeth y DU ar Ddefnyddio Gigabit.

### **Ymateb**

Gwrthod

Mae'r cyfraddau mabwysiadu yn wahanol ar draws Cymru, a 55 y cant (yn ôl Ofcom Connected Nations Rhagfyr 2020) sydd wedi mabwysiadu gwasanaethau mewn ardaloedd lle mae band eang cyflym iawn ar gael. Ond mewn ardaloedd lle mae Llywodraeth Cymru wedi ymyrryd drwy raglen Cyflymu Cymru ac wedi gwneud gwaith cyfathrebu a marchnata cysylltiedig, mae'r gyfradd bron yn 69 y cant (ffigurau Llywodraeth Cymru), ac mae'r gwaith yn parhau. Mae angen ymdrech ar y cyd gan y

diwydiant i ysgogi'r galw ar draws y rhannau hynny o'r wlad nad ydynt yn cael eu gwasanaethu gan ymyriadau gan Lywodraeth Cymru.

Mae Grŵp Seilwaith Digidol Cymru eisoes yn cydgysylltu gwaith sy'n cael ei wneud ar draws yr awdurdodau lleol, y bargeinion dinesig a'r bargeinion twf yng Nghymru i annog rhagor o i fanteisio ar wasanaethau digidol, ac mae'n cynnwys rhwydwaith o swyddogion ymgysylltu band eang sy'n cael eu hariannu'n lleol.

Byddwn, wrth gwrs, yn cysylltu ac yn trafod yn agos â Grŵp Cynghori newydd Llywodraeth y DU ar Ddefnyddio Gwasanaethau Digidol Gigabit.

### **Argymhelliad 'h'**

Rydym hefyd yn argymell y dylid gofyn i Brif Swyddog Digidol Llywodraeth Cymru gyfrannu at waith Archwilio Cymru, gan gynnwys drwy ddarparu tystiolaeth ar fabwysiadu technolegau band eang gan awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru.

### **Ymateb**

Gwrthod

Fel y nodwyd uchod, mater i Archwilio Cymru yw blaenraglen waith Archwilio Cymru. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod pwysigrwydd cysylltedd digidol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru, a sut mae cysylltedd digidol o'r fath yn helpu i alluogi a darparu gwasanaethau cyhoeddus digidol. Mae Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus yn darparu cysylltedd cyflym a dibynadwy i 117 o sefydliadau a thros 5,000 o adeiladau yng Nghymru.

Yn ein Strategaeth Ddigidol newydd i Gymru, rydym yn edrych i'r dyfodol ac yn pennu gweledigaeth genedlaethol ar gyfer mynd ati ar y cyd i fabwysiadu ffordd ddigidol o weithio ledled Cymru. Y weledigaeth yw " gwella bywydau pawb trwy gydweithio, arloesi a gwasanaethau cyhoeddus gwell". Mae ynddi chwe chenhadaeth:

Cenhadaeth 1: Gwasanaethau Digidol – cyflenwi a moderneiddio gwasanaethau fel eu bod yn seiliedig ar anghenion defnyddwyr ac yn syml, yn ddiogel ac yn gyfleus.

Cenhadaeth 2: Cynhwysiant Digidol – rhoi yr ysgogiad, y mynediad, y sgiliau a'r hyder i bobl ymgysylltu gyda byd sy'n fwyfwy digidol, yn seiliedig ar eu hanghenion.

Cenhadaeth 3: Sgiliau Digidol – creu gweithle sydd â'r sgiliau digidol, y gallu a'r hyder i ragori yn y gweithle ac ym mywyd pob dydd.

Cenhadaeth 4: Economi Ddigidol – sbarduno ffyniant economaidd a cydnerthedd drwy gynnwys a defnyddio arloesedd digidol.

Cenhadaeth 5: Cysylltedd Digidol – caiff gwasanaethau eu cefnogi gan seilwaith cyflym a dibynadwy.

Cenhadaeth 6: Data a Chydweithredu – caiff gwasanaethau eu gwella drwy gydweithio, a chaiff data a gwybodaeth eu defnyddio a'u rhannu.

Nod y Strategaeth yw sicrhau bod pobl yng Nghymru yn cael gwasanaethau cyhoeddus modern ac effeithlon sy'n cael eu hategu gan ddefnydd da, moesegol o ddata. Mae am ysgogi arloesedd yn ein heconomi a helpu busnesau i ddatblygu'r cadernid y mae ei angen arnynt i lwyddo. Ei nod yw rhoi'r hyder y mae ei angen ar bobl Cymru i fod yn rhan o'u cymunedau ac o gymdeithas fodern. Mae am sicrhau bod gan ddysgwyr o bob oed yr wybodaeth, y profiad a'r sgiliau i elwa ar economi sy'n un gynyddol ddigidol ac sy'n prysur newid.

## **Argymhelliad 'i'**

Dylid cysoni'r drefn gynllunio ar gyfer telathrebu yng Nghymru â'r drefn sy'n cael ei chynnig ar hyn o bryd ar gyfer Lloegr (ac yn debygol o gael ei hailadrodd yn yr Alban) fel mater o frys. Dylai hyn gyd-fynd â diwygio'n llwyr y canllawiau TAN19 i awdurdodau lleol, yn ogystal â diwygiadau i'r Cod Ymarfer ar Ddatblygu Rhwydweithiau Ffonau Symudol, y ddau bellach dros 15 oed. Fodd bynnag, yn ein barn ni, dim ond os gellir sicrhau y bydd aelwydydd a busnesau yng Nghymru yn gweld gwelliannau mawr i gysylltedd band eang y dylid mabwysiadu darpariaethau mwy ffafriol. Byddai gofyn i'r diwydiant symudol, yn cael ei gynrychioli efallai gan Mobile UK, ymrwymo i wella mwy ar y signal yng Nghymru, gan wneud mwy na'r hyn yr ymrwymwyd iddo euisoes o dan raglen y Rhwydwaith Gwledig a Rennir.

## **Ymateb**

Gwrthod

Mae'r drefn gynllunio yng Nghymru a'r polisïau sydd yn Polisi Cynllunio Cymru yn gefnogol iawn i seilwaith telathrebu a seilwaith digidol newydd. Mae'r agwedd honno at bolisi yn parhau yn Dyfodol Cymru (y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol) ac mae'r Fframwaith hwnnw'n argymhell polisïau rhagweithiol y gall awdurdodau cynllunio lleol a'r diwydiant weithredu arnynt mewn ardaloedd lle nad oes dim darpariaeth, neu fawr ddim darpariaeth.

O ran systemau cynllunio'r gweinyddiaethau datganoledig, mater i bob Llywodraeth unigol yw penderfynu ar ei blaenoriaethau ar gyfer deddfwriaeth a datblygu polisi, ac yna gweithredu yn unol â hynny. Cyflwynodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol is-ddeddfwriaeth newydd ym mis Tachwedd 2020 i ddadroleiddio mwy ar yr hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer antena bach. Daeth y Gorchymyn Diwygio i rym ar 21 Rhagfyr a bydd yn helpu i hwyluso'r gwaith o gyflwyno gwasanaethau symudol 5G y genhedlaeth nesaf ledled y wlad, gan sicrhau nad yw Cymru dan anfantais yn hynny o beth.

Cyflwynwyd darpariaeth ledled Cymru ym mis Ebrill 2019 i gynyddu uchder a lled mastiau mewn ardaloedd trefol a gwledig. Mae'r diwydiant telathrebu yn dweud yn aml y dylai Llywodraeth Cymru godi'r trothwyon hawliau datblygu a ganiateir sy'n gysylltiedig ag uchder mastiau, fel y bo'r trothwyon yr un peth ym mhob un o wledydd y DU. Fodd bynnag, mae angen i'r system gynllunio ystyried yr effaith y mae'r datblygiadau hyn yn ei chael ar yr amgylchedd a'r preswylwyr cyfagos.

Os oes angen mastiau sy'n uwch na'r terfynau datblygu a ganiateir mewn man penodol, yna gellir cyflwyno cais cynllunio ar gyfer cynllun o'r fath. Mae hynny'n



golygu bod y gymuned yn cael cyfle i asesu'r effeithiau ac, o bosibl, i elwa ar y datblygiad. Ni fyddai hynny'n digwydd o dan y drefn datblygiadau a ganiateir.

Nid yw'r diwydiant wedi'n hargyhoeddi â'i ddadl o blaid codi'r trothwy hwn. Nid yw'r diwydiant wedi darparu unrhyw dystiolaeth nac unrhyw sicrwydd pendant y bydd pennu trothwy uwch yn arwain at adeiladu mwy o fastiau mewn ardaloedd nad oes ganddynt signal, neu fawr ddim signal, ar hyn o bryd. Mae topograffeg Cymru yn wahanol ac ni fyddai'n briodol inni efelychu'r ffordd y mae cenedl arall yn ymdrin â hawliau datblygu a ganiateir.

Bydd diben TAN 19 yn cael ei adolygu yng ngoleuni'r Cod Arferion Gorau newydd ar ddatblygu Rhwydwaith Ffonau Symudol, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021.

### **Argymhelliad 'j'**

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â phrosiect bach i gael gwell data ar lefelau presennol darpariaeth symudol a pherfformiad yng Nghymru. Dylid defnyddio hyn i oleuo data a gynhyrchwyd eisoes gan Ofcom a'r tybiaethau a wnaed gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wrth ddatblygu polisi neu orfodi targedau.

### **Ymateb**

Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Ofcom, Llywodraeth y DU, y diwydiant a darparwyr data eraill i geisio cael gwell data ar lefelau'r ddarpariaeth symudol yng Nghymru ar hyn o bryd, ac ar berfformiad y ddarpariaeth honno. Fodd bynnag, mae data am gwmpas gwasanaethau penodol yn sensitif iawn yn fasnachol ac, yn hanesyddol, mae'r diwydiant wedi bod yn amharod i rannu data neu i ganiatáu i Ofcom rannu data. Mae hynny wedi peri cryn rwystredigaeth.

### **Argymhelliad 'k'**

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio, gyda'r diwydiant ac ochr yn ochr â gweithredu argymhelliad (i), i ba raddau y gellid sicrhau darpariaeth 4G bellach a chyflymu darpariaeth 5G yng Nghymru o fewn y 5 mlynedd nesaf, gan ddefnyddio'r sbectrwm 700 MHz a fydd ar gael o 2021 ymlaen, mae'n debyg:

- i. Pe byddai Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu diwygiadau pellach i'r drefn gynllunio yng Nghymru goruwch a thu hwnt i'r rhai sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd gan Lywodraeth y DU ar gyfer Lloegr, er mwyn hwyluso'r gwaith o gyflwyno seilwaith symudol ymhellach.
- ii. Pe byddai Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid cyhoeddus ychwanegol, goruwch a thu hwnt i'r hyn sydd yn y cytundeb SRN presennol, er mwyn ymestyn y ddarpariaeth symudol ymhellach mewn rhai rhannau o Gymru. Gellid aildyrannu cyllid o'r fath o'r gyfran o'r rhaglen gyllido Gigabit gwerth £5 biliwn y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl ei chael gan Lywodraeth y DU (a gallai gynrychioli cyfran sylweddol o'r dyraniad hwnnw).

## **Ymateb**

### Gwrthod

Fel y nodwyd uchod, rydym eisoes wedi gwneud newidiadau mawr i'r drefn gynllunio yng Nghymru ac nid oes achos wedi'i gyflwyno o blaid rhagor o newidiadau.

Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am delathrebu ledled y DU, gan gynnwys yng Nghymru. Bydd ei phrosiect Rhwydwaith Gwledig a Rennir, sy'n un y mae'n ymgymryd ag ef ar y cyd â'r diwydiant symudol, yn sicrhau gwell cysylltedd symudol ledled Cymru. Mater i Lywodraeth y DU yw sut y mae'n bwriadu cyflawni'r prosiect hwn. Ar hyn o bryd, nid ydym yn rhagweld y byddwn yn defnyddio arian cyhoeddus i ymyrryd ym maes cysylltedd symudol yng Nghymru. O ran y cyllid y mae Llywodraeth y DU yn ei gynnig ar gyfer cyflwyno cysylltedd gigabit, ni cheir defnyddio'r cyllid hwnnw ar gyfer mathau eraill o gysylltedd nad ydynt yn darparu cysylltedd gigabit.

### **Argymhelliad 'l'**

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gofyn i Lywodraeth y DU ystyried cyflwyno targedau perfformiad a darpariaeth 5G (ochr yn ochr â'r rheini sydd eisoes wedi cael eu mabwysiadu ar gyfer 4G) yn y trefniadau Rhwydwaith Gwledig a Rennir presennol. Os na chefnogir hyn, ac os gwneir cynnydd gyda gweithredwyr symudol y DU, dylai Llywodraeth Cymru fynd ar drywydd cytundeb ar wahân gyda'r gweithredwyr symudol a fyddai'n ymgorffori targedau o'r fath.

## **Ymateb**

### Derbyn:

Byddwn yn gofyn i Lywodraeth y DU gynnwys targedau ar gyfer cwmpas a pherfformiad 5G yn y trefniadau presennol ar gyfer y Rhwydwaith Gwledig a Rennir ac mewn unrhyw ymyriadau yn y dyfodol ym maes seilwaith symudol.

Mae Llywodraeth Cymru, man lleiaf, am weld yr un cwmpas yng Nghymru ag mewn rhannau eraill o'r DU fel bod aelwydydd a busnesau yng Nghymru yn gallu manteisio ar gyfleoedd heb unrhyw arafwch neu oedi. Fodd bynnag, byddai pennu targedau penodol ar gyfer Cymru yn unig yn heriol heb unrhyw ysgogiadau i gyrraedd targedau o'r fath. Ar hyn o bryd, nid ydym yn rhagweld y byddwn yn ymgymryd ag ymyriad 5G a fydd yn cael ei ariannu'n gyhoeddus yng Nghymru. Byddai unrhyw ymyriad yn gynamserol ar hyn o bryd oherwydd dim ond pe byddai'r farchnad yn methu y gallem ymyrryd. Mae'n rhaid inni, felly, weld beth fydd yn digwydd wrth i'r farchnad fynd ati i gyflwyno 5G.

### **Argymhelliad 'm'**

Rydym yn argymhell y dylid gofyn i'r tasglu chwalu rhwystrau helpu Mobile UK a/neu weithredwyr symudol yn eu trafodaethau gydag Awdurdodau Priffyrdd a Network Rail gyda'r bwriad o ddatrys y materion rydym yn eu rhestru ym mharagraff 342 yr adroddiad hwn.

## **Ymateb**

Derbyn

Byddwn yn gofyn i'r tasglu edrych ar faterion sy'n ymwneud â'r diwydiant telathrebu yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys materion sy'n gysylltiedig â phriffyrdd a rheilffyrdd.

### **Argymhelliad 'n'**

Rydym yn awgrymu bod y tasglu'n ymgysylltu'n uniongyrchol â'r Swyddfa Gartref i benderfynu a yw'r materion hyn yn effeithio ar ddarpariaeth yng Nghymru ac i ba raddau, ac i fodloni ei hun y byddant yn cael eu datrys neu'n nodi camau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i gynorthwyo.

### **Ymateb**

Derbyn

Mae gan Lywodraeth Cymru gysylltiadau eisoes â'r prosiect ESN (Rhwydwaith Gwasanaethau Brys) a'r rhaglen ESMCP (Rhoglen Cyfathrebu Symudol y Gwasanaethau Brys) ehangach.

A hithau'n gorff noddi, mae Llywodraeth Cymru, a Chyd-grŵp Gwasanaethau Brys (Cymru), yn cysylltu ac yn trafod yn rheolaidd â'r Tîm Gwasanaethau Ardal Estynedig, Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Awdurdodau Cynllunio a'r Is-adran Gynllunio yng Ngrŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol yn Llywodraeth Cymru ac, mewn ambell achos, â'r cynghorwyr lleol i sicrhau, pryd bynnag y bo modd, bod penderfyniadau ar fastiau'n cael eu gwneud yn gyflym er mwyn i'r mastiau hynny gael dechrau gweithio cyn gynted ag y bo modd.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu rhywfaint o arian ychwanegol i'r rhaglen i uwchraddio mastiau VSAT (Terfynellau ag Agorfeydd Bach iawn) naill ai i Ficrodonnau neu Ffibr er mwyn annog gweithredwyr rhwydweithiau symudol eraill i gynnig band eang symudol mewn cymunedau gwledig. Mae Cymru wrthi ar hyn o bryd yn trafod gyda'r tîm EAS (Gwasanaethau Ardal Estynedig) gyfleoedd i roi rhyw ugain o fastiau EAS ar waith ledled Cymru o fewn y deuddeg mis nesaf, ddwy flynedd yn gynt nag a fwriadwyd.